**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Tîm Polisi Rheoliadau Adeiladu ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod.

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2024.

**Julie James AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**

11 Mehefin 2024

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i Reoliadau Adeiladu 2010 ("y Rheoliadau Adeiladu") (fel y'u diwygiwyd) er mwyn darparu systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 1 a 34 a pharagraffau 7, 8 a 10 o Atodlen 1 i Ddeddf Adeiladu 1984 ("Deddf 1984"). Mae adran 1(1) o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau adeiladu at nifer o ddibenion (gan gynnwys sicrhau iechyd, diogelwch, lles a chyfleustra pobl mewn neu o amgylch adeilad a phobl eraill y gallai adeiladau neu faterion sy'n gysylltiedig ag adeiladau effeithio arnynt) mewn perthynas â materion a enwir yn adran 1(1A) o Ddeddf 1984. Y mae dyluniad ac adeiladwaith adeilad ymhlith y materion a enwir yn adran 1(1A) o Ddeddf 1984. Mae Atodlen 1 i Ddeddf 1984 yn gwneud darpariaeth hefyd ynghylch y materion y gall rheoliadau adeiladu eu darparu. Mae paragraff 7 o Atodlen 1 o Ddeddf 1984 yn darparu, heb leihau effaith gyffredinol adran 1(1) o Ddeddf 1984, y caiff rheoliadau adeiladu at unrhyw rai o'r dibenion enwir yn adran 1(1), wneud darpariaeth mewn perthynas â nifer o faterion gan gynnwys "fire precautions, including services, fittings and equipment designed to mitigate the effects of fire or to facilitate fire-fighting".

3.2 Mae adran 14(5) o Ddeddf 1984 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi pwyllgor i'w adnabod fel Pwyllgor Cynghori Rheoliadau Adeiladu Cymru (BRACW) i'w cynghori ar arfer eu pŵer i wneud rheoliadau adeiladu ac ar unrhyw bynciau eraill sy'n gysylltiedig â rheoliadau adeiladu. Mae adran 14(7) o Ddeddf 1984 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â BRACW (ac unrhyw gyrff eraill yr ymddengys eu bod yn cynrychioli'r buddiannau dan sylw) cyn gwneud unrhyw reoliadau adeiladu sydd â gofynion sylweddol.

3.3 Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer hefyd i wneud pethau sy'n ffafriol i'w swyddogaethau yn rhinwedd y swyddogaethau gweithredol o dan y gyfraith gyffredin a drosglwyddwyd iddynt drwy Adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu sy'n gysylltiedig â hwy.

3.4 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Y Rheoliadau Adeiladu yw'r prif gyfrwng ar gyfer gosod systemau llethu tân awtomatig mewn rhai adeiladau newydd penodol a rhai adeiladau penodol wedi'u haddasu. Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn cynnwys darparu systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i oedolion yng Nghymru, ond darperir systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant yng Nghymru ym Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 ("y Mesur").

4.2 Bydd y Rheoliadau hyn yn symud y gofyniad i ddarparu systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant o'r Mesur i'r Rheoliadau Adeiladu. Bydd y rheoliadau hyn hefyd yn newid y diffiniad o sefydliad i nodi cartrefi plant yn glir. Bydd hyn yn cynnig cysondeb rhwng cartrefi gofal i blant a chartrefi gofal i oedolion lle mae systemau llethu tanau awtomatig eisoes yn ofyniad o dan y Rheoliadau Adeiladu.

4.3 Mae bodolaeth darpariaethau ar gyfer systemau llethu tân awtomatig mewn dau ddarn gwahanol o ddeddfwriaeth yn peri dryswch ac anghysondeb wrth eu rhoi ar waith. Bydd y newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn help i ddatblygwyr am mai dim ond un cais at ddibenion rheoleiddio adeiladu fydd ei angen. Bydd hefyd yn symleiddio'r broses i gyrff rheoli adeiladau o gofnodi data ceisiadau a manylion archwilio safle ar eu cronfa ddata. Bydd yr holl wybodaeth am ddatblygiad yn cael ei chofnodi mewn un lle.

## 5. Ymgynghori

5.1 Yn unol â pholisi'r Llywodraeth ar ymgynghori, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 14 Rhagfyr 2022 a 7 Mawrth 2023 ar y cynigion drafft i ddiwygio'r Rheoliadau Adeiladu. Roedd y ddogfen ymgynghori 'Rhesymoli'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant' yn gofyn i'r cyhoedd ystyried cynigion ar gyfer y darpariaethau hyn. Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys Arolygwyr Cymeradwy, Cyrff Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol a chyrff proffesiynol megis Cymdeithas Siartredig y Peirianwyr Adeiladu (CABE), Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) a'r Sefydliad Adeiladu Siartredig (CIOB).

5.1 Cafwyd 23 o ymatebion i’r ymgynghoriad. Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: Systemau awtomatig ar gyfer llethu tanau mewn cartrefi gofal plant | LLYW.CYMRU .

5.2 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion yn yr ymgynghoriad. Holodd canran fach o'r ymatebwyr am y newid i Reoliad 2 (Dehongli) o'r Rheoliadau Adeiladu i nodi cartrefi plant trwy ddefnyddio'r geiriau "bregusrwydd neu angen" gan nodi bod hyn yn agored i ddehongliad eang. Defnyddir y geiriad hwn yn Atodlen 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i nodi gwasanaeth cartref

gofal i blant. Mae'r geiriad wedi cael ei adolygu ac mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd, mae geiriad diwygiedig o "dan 18 oed" wedi'i gynnwys yn y rheoliadau. Mae hyn yn gwahaniaethu rhwng cartrefi gofal i oedolion dros 18 oed a chartrefi gofal i blant yn y Rheoliadau Adeiladu. Mae hyn hefyd yn lleihau'r broblem sy'n codi ynghylch dehongli ac yn rhoi eglurder o fewn y Rheoliadau Adeiladu.

5.3 Cytunodd y mwyafrif ar y newidiadau i Reoliad 37A (Darparu systemau llethu tân awtomatig) y Rheoliadau Adeiladu gan fod hyn yn symud y gofynion ar gyfer cartrefi plant o'r Mesur i Reoliadau Adeiladu 2010.

5.4 Yn ogystal, ymgynghorwyd â BRACW yn ystod y cam ymgynghori ac wedi hynny ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Adeiladu. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiad i'r newidiadau rheoleiddiol.

## 6.0 RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6.1 Yn unol â chod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth, ni wnaed RIA mewn perthynas â'r rheoliadau technegol hyn. Hynny am nad ydynt yn cyflwyno polisi newydd, nid ydynt yn newid polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol, ac nad ydynt yn effeithio ar sut y mae polisi sy'n bod yn cael ei gymhwyso.